------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd/Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Hydref 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 298(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Cwestiynau Amserol.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil Calonnau Cymru

(30 munud)

**NDM7427** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil calonnau Cymru i wella'r canlyniadau i bobl sy'n dioddef ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai gosod dyletswydd ar:

a) Gweinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth i wella canlyniadau ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty a datblygu llwybrau goroesi ar gyfer y wlad gyfan;

b) awdurdodau lleol i gynllunio i sicrhau mynediad digonol i ddiffibrilwyr cymunedol ym mhob rhan o'u hardal;

c) Gweinidogion Cymru i sicrhau bod hyfforddiant mewn CPR yn cael ei ddarparu i bobl ledled Cymru;

d) byrddau iechyd i gydweithio i baratoi llwybr goroesi rhanbarthol ar gyfer ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty; ac

e) Gweinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar gynnydd eu strategaeth yn erbyn amcanion bob blwyddyn.

**Cyd-gyflwynwyr**

Andrew RT Davies (Canol De Cymru)

Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

## 7 Dadl ar Ddeiseb P-05-1003: Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru

(30 min)

**NDM7438** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru' a gasglodd 10,692 o lofnodion.

P-05-1003 Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru

## 8 Dadl Plaid Cymru - Dyfodol Addysg

(60 munud)

**NDM7440** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi sicrwydd amserol i ddisgyblion ac athrawon drwy wneud datganiad ar unwaith na fydd arholiadau yn cael eu cynnal yng Nghymru yn haf 2021 a bydd asesiad gan athrawon yn digwydd yn lle hynny;

b) sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a'u bod yn cael cyfle teg i ddangos eu bod wedi cyrraedd y sgiliau hynny drwy system asesu a chymwysterau ddiwygiedig yng Nghymru sy'n cyd-fynd â chwricwlwm newydd Cymru drwy ddileu arholiadau hen ffasiwn TGAU a Safon Uwch.

c) sicrhau bod pob disgybl yn gadael y system addysg yn ddinasyddion dwyieithog, drwy:

i) cymryd camau pellach i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn hwyluso rhuglder yn y Gymraeg fel norm drwy gynyddu addysg gyfrwng Cymraeg ym mhob sector a chyfnod dysgu; a

ii) ymrwymo i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg;

d) sicrhau bod gan bob disgybl ddealltwriaeth o dreftadaeth a hunaniaeth amrywiol Cymru, drwy wneud hanes Cymru yn elfen orfodol yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu, gan gynnwys hanes pobl dduon a phobl groenliw sy'n rhan annatod o hanes Cymru;

e) cynnal hawliau pob disgybl yn ardal Pontypridd ac mewn mannau eraill i addysg cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned eu hunain ac o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi

drwy hyrwyddo'n eang y cynseiliau sy'n deillio o ddyfarniad y llys gweinyddol yn Driver yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â sicrhau yr ymgymerir ag asesiadau effaith iaith Gymraeg yn briodol mewn cynigion i ad-drefnu ysgolion;

f) blaenoriaethu iechyd meddwl a lles ein myfyrwyr drwy sicrhau bod meysydd dysgu ac arbenigedd iechyd meddwl a lles yn cael sylw dyledus yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu, a monitro tueddiadau tymor canolig a hirdymor yn y ddarpariaeth iechyd meddwl o fewn ysgolion;

g) cefnogi myfyrwyr addysg bellach sy'n dysgu gartref, a hynny ar frys, drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at ddarpariaeth band eang ac offer digonol, ac asesu ar frys yr angen i ailagor lleoedd gwaith cyhoeddus yn ddiogel i fyfyrwyr na allant weithio gartref;

h) atal prentisiaid rhag llithro i dlodi drwy warantu amddiffyniadau cyflog llawn pan fo gweithleoedd yn cael eu cau, a darparu cymorth/arweiniad ychwanegol os cânt eu diswyddo;

i) cynnal hawliau cyfreithiol myfyrwyr drwy sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal â gweddill y cyhoedd o ran cyfyngiadau COVID-19, gan gynnwys gwarant y gall myfyrwyr ddychwelyd adref cyn cyfnod y Nadolig gan sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith drwy brofion.

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Penderfyniadau Uchel Lys Cymru a Lloegr : Gyrrwr yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [2020] (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu is-bwyntiau (a) a (b) a rhoi yn eu lle:

'cymryd pob cam i sicrhau bod disgyblion yng Nghymru yn cael cyfle i sefyll arholiadau cyffredinol a galwedigaethol yn ystod y flwyddyn ysgol hon, gan gynnwys os caiff y flwyddyn ysgol ei hymestyn;

pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynghylch a fydd arholiadau'n mynd rhagddynt, gyda'r dyddiadau'n caniatáu i system gredadwy a chadarn o raddau asesu canolfannau a gymedrolir yn allanol gael ei gweithredu yn lle hynny;'

**Gwelliant 2** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu is-bwynt (c) (i) a rhoi yn ei le:

'cyflwyno cod continwwm Iaith Gymraeg i gynorthwyo ymarferwyr i gyflawni'r nod o wella rhugldder drwy'r cwricwlwm;'

**Gwelliant 3** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Cynnwys is-bwynt (c)(ii) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

'derbyn y dyfarniad yn Driver yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

**Gwelliant 4** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Cynnwys is-bwynt newydd ar ôl pwynt (c) ac ailrifo'n unol â hynny:

'sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol a'u bod yn cael cyfle teg i ddangos eu bod wedi cyrraedd y sgiliau hynny drwy system well o asesu a chymwysterau cyffredinol sy'n cyd-fynd â chwricwlwm newydd Cymru a thrwy fynediad i gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol cydnabyddedig;'

**Gwelliant 5** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu is-bwynt (e) ac ailrifo'n unol â hynny.

**Gwelliant 6** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Cynnwys fel is-bwynt newydd ar ôl is-bwynt (g) ac ailrifo yn unol â hynny:

'adlewyrchu argymhellion yr adroddiad Cadernid Meddwl ac arsylwadau'r Comisiynydd Plant yn well wrth gyflwyno'r cwricwlwm, a monitro canlyniadau;'

[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru]

**Gwelliant 7** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Dileu is-bwynt (h) ac ailrifo'n unol â hynny.

**Gwelliant 8** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 wedi tarfu ar addysg disgyblion.

Yn cydnabod ymrwymiad a hyblygrwydd yr holl staff sy'n darparu addysg yn ystod pandemig COVID-19.

**Gwelliant 9** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'gwneud datganiad brys ar y cymorth a ddarperir i brentisiaid a hyfforddeion.'

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddetholwyd gwelliant 10 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7439** [Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Ehangu'r sbectrwm: ychwanegu glas at yr adferiad gwyrdd.

Gosod ein moroedd wrth wraidd yr economi werdd a setliad cymdeithasol yn dilyn COVID-19.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2020

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 14/10/2020 i'w hateb ar 21/10/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OQ55724

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch y posibilrwydd o gynyddu'r gyllideb sydd ar gael yn 2020/21 i'w gwario ar yr economi yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ55763

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau y mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn effeithio arnynt?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

3 OQ55761

**(w)**

I ba raddau gall y Gweinidog sicrhau fod modd addasu cyllideb Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf i gynorthwyo cynghorau sir yng Nghymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

4 OQ55747

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad preswyl arfaethedig Llywodraeth Cymru ar Fferm Cosmeston ym Mhenarth?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

5 OQ55756

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am niferoedd y tai cyfradd uwch sy'n ymddangos yn ffigurau diweddaraf y dreth trafodiadau tir?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ55752

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o lefel caffael lleol gan gyrff cyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ55719

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol sydd ar gael i'r rheini y mae cyfyngiadau coronafeirws lleol yn effeithio arnynt?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

8 OQ55745

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ariannu gwaith adfer yn dilyn llifogydd yng Nghymru wrth ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ55760

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae datganiadau ariannol sy'n cyd-fynd â biliau newydd yn cymharu â'r costau gwirioneddol a geir?

**David Rees** *Aberafan*

10 OQ55759

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i gael mynediad at y gronfa ffyniant gyffredin?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

11 OQ55737

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gefnogi'r gronfa diogelwch adeiladau arfaethedig ar gyfer lesddeiliaid wrth ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

12 OQ55733

**(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am y dyraniad cyllid i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021-22?

# Y Gweinidog Addysg

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ55750

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y disgwylir i ysgolion eu cymryd i gyfyngu ar y risg o ledaenu heintiau COVID-19?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ55739

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am agor canolfannau addysg awyr agored yn ystod pandemig COVID-19?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**3** OQ55742

**(e)**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yn cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol?

**David Rees** *Aberafan*

**4** OQ55757

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd yr adolygiad o ddyfarnu canlyniadau arholiadau yn ystod haf 2020 yn cael ei gyhoeddi?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**5** OQ55718

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn sir Benfro?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

**6** OQ55746

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg yng Nghanol De Cymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**7** OQ55758

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newidiadau yn y canllawiau newydd ynghylch anfon blynyddoedd ysgol llawn adref i hunanynysu?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**8** OQ55754

**(e)**

Sut bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwasanaethau addysg ddigidol eleni?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**9** OQ55753

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol wrth ddarparu addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Gymraeg, yn enwedig mewn cymunedau sy'n agos at ffiniau sirol?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**10** OQ55720

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol drwy pandemig y coronafeirws?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OQ55744

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r adnoddau sydd eu hangen ar brifysgolion Cymru i gefnogi addysgu a dysgu i fyfyrwyr yn ystod brigiadau o achosion COVID-19 ar gampysau?

# Comisiwn y Senedd

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55729

**(e)**

Sut mae'r Comisiwn yn cefnogi staff sy'n gweithio gartref yn ystod pandemig y coronafeirws?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

2 OQ55748

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfleusterau yn adeilad Tŷ Hywel?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

3 OQ55764

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am baratoadau i sicrhau y bydd etholiadau nesaf y Senedd fis Mai yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

4 OQ55734

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Comisiwn wedi'i wneud o'i bolisïau i sicrhau nad yw gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil yn digwydd i aelodau etholedig a staff?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ55725

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am wella ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar ystad y Senedd?

**David Melding** *Canol De Cymru*

6 OQ55741

**(e)**

Pa fesurau sydd ar waith i gefnogi staff y Comisiwn sy'n gweithio gartref yn ystod y pandemig?